

## Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol: Galw am Ymarferwyr Creadigol

Ysgol Gynradd Waunceirch, Heol Dŵr y Felin, Castell Nedd, SA10 7RW

**Ffi:** £4,000 | **Hyd y Prosiect:** Hydref 2018 – Mai 2019 | **Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau:** 16 Medi 2018

Rydym yn gwahodd ceisiadau gan Ymarferwyr Creadigol (unigolion / partneriaethau / stiwdios / cyrff) i weithio gyda grŵp o hyd at 28 o ddisgyblion Blwyddyn 3 (merched a bechgyn, 7-8 oed) i ddatblygu eu Sgiliau Cymhwyster Digidol (yn unol â'r fframwaith cymhwyster digidol <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/digital-competence-framework/?lang=en>) ac i chwilio ffyrdd o ddefnyddio'r amryw rolau sydd ynghlwm â gwneud ffilmiau er mwyn dwyn yn eu blaenau sgiliau ymgysylltu a gwrando'r disgyblion, gan ganolbwyntio ar lythrennedd. Ymatebion y disgyblion i daith ysgol sydd yn yr arfaeth, i Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru (<https://museum.wales/stfagans/>) ym mis Ionawr 2019, fydd yn bwydo'r prosiect, ynghyd â meddyliau am fro hanesyddol a chyfoes yr ysgol.

Yn y fan hon mae'r briff yn gymharol agored, i roi lle i Ymarferwyr Creadigol weithio ar y cyd â dau Athro Blwyddyn 3 a'u dysgwyr i ddatblygu'r prosiect a'i ganlyniadau'n fanylach.

Bydd yr Ymarferwr neu'r Ymarferwyr Creadigol yn gweithio gyda'r athrawon a'r disgyblion i ddatblygu a chyflenwi adeiladwaith, cynnwys a chanlyniadau manwl y prosiect, yn ogystal â ffyrdd creadigol o ddogfennu a gwerthuso'r prosiect a dathlu'r hyn a gyflawnwyd.

Mae'r athrawon cyfranogol yn ymddiddori mewn datblygu sgiliau digidol newydd a rhannu eu dysgu drwy hyd a lled yr ysgol. Disgwylir i'r Ymarferwr Creadigol gefnogi'r broses hon drwy rannu gwybodaeth a darparu hyfforddiant sgiliau i'r athrawon yn rhan o'r prosiect.

### AM BWY RYDYM YN CHWILIO

Rydym yn croesawu ceisiadau gan Ymarferwyr Creadigol (gan gynnwys unigolion, partneriaethau, timau, cyrff neu stiwdios) a chanddyn nhw arbenigedd ym maes gwneud ffilmiau. Rhaid i'r Ymarferwyr Creadigol ddangos ymroddiad i ddatblygu rhagoriaeth mewn ymarfer creadigol a dawn ennyn diddordeb ac ysbrydoli pan fyddant yn gweithio gydag eraill.

Bydd disgwyl i'r Ymarferwr Creadigol a benodir:

- Hwyluso'n effeithiol y gweithgareddau dysgu creadigol yn yr ysgol;
- Bod yn rhan weithredol o gynllunio'r prosiect a chyfnodau datblygu'r prosiect;
- Meithrin perthynas weithio â'r athrawon a staff eraill yr ysgol a nodweddir gan ymddiried a bod yn agored;
- Gweithio gyda'r athrawon a'r disgyblion i ddatblygu cymuned dysgu creadigol yn yr ysgol wedi'i seilio ar arfer cydweithredol a myfyriol gyda golwg ar blannu newid cynaliadwy;
- Rhannu eu teithiau creadigol personol â'r dysgwyr a dangos llwybrau i yrfaedd yn y sector creadigol;
- Gallu meithrin perthynas â phobl ifanc mewn ffyrdd sy'n wahanol i'r berthynas athro/dysgwr; Mae'r gwahaniaeth hwn yn anodd ei ddiffinio, ond fel arfer fe'i nodweddir gan lai o ffurfioldeb, bod yn fwy agored a mwy o arfer drwy drafod nag sydd i'w gweld fel arfer mewn perthynas rhwng athrawon a disgyblion.
- Gweithio ochr yn ochr ag athrawon a staff eraill yr ysgol yn yr ystafell ddosbarth, mewn ffyrdd sy'n rhoi lle i'r ddwy set sgiliau gyflenwi ei gilydd. Yn nealltwriaeth y partneriaid o'u setiau sgiliau neilltuol a chyflenwol y mae cryfder y bartneriaeth gydweithredol. Dylai Ymarferwyr Creadigol gadw cyfeiriad meddwl partner allanol, tra bydd yr athro'n defnyddio'n llawn eu gwybodaeth arbenigol a'u cynefindra ag anghenion a galluoedd y disgyblion;

- Gweithio gyda'r athrawon a'r disgyblion i ddatblygu prosiect dichonadwy i gyflawni canlyniadau cytûn y prosiect o fewn y gyllideb a'r raddfa amser sydd ar gael.

## **FFŪOEDD, AMSERLEN A CHYLLIDEB**

Ffi'r Ymarferwr Creadigol yw £4,000 i ymorol am yr holl ffioedd, treuliau rhesymol a deunyddiau. Mae'r cytundeb am waith 16 Diwrnod yn ôl cyfradd o £250 y diwrnod, y gellir ei rannu rhwng dau neu ragor o ymarferwyr. Mae yna gyllid dros ben hyd at £1,500 ar gyfer treuliau teithio rhesymol i'r Ymarferwr Creadigol ac ar gyfer deunyddiau a threuliau eraill tuag at y prosiect, y cytunir arnynt â'r ysgol pan benodir yr Ymarferwr.

Bydd y prosiect ar fynd **Hydref 2018 – Mai 2019**, yn cynnwys y dyddiadau allweddol canlynol:

### **03 – 04 Hydref 2018**

Bydd disgwyl i'r Ymarferwr neu'r Ymarferwyr Creadigol fynychu **cwrs hyfforddi gorfodol deuddydd Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru** (oni bai eu bod eisoes wedi gwneud hyfforddiant Ymarferwyr Creadigol ar gyfer prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol cynt). Mae'r hyfforddiant am ddim. Ni thalir ffi i'r Ymarferwr neu'r Ymarferwyr Creadigol am fynychu'r hyfforddiant ond ad-dalir o gyllideb y prosiect y costau teithio a llety rhesymol yr ânt iddynt o'i fynychu. Rhaid i'r Ymarferwr neu'r Ymarferwyr Creadigol fod ar gael ar y dyddiad hwn.

### **26 Hydref 2018**

Dyddiad cau i'r ysgol gyflwyno ffurflen cynllunio'r prosiect i Gyngor Celfyddydau Cymru. Bydd disgwyl i'r Ymarferwr neu'r Ymarferwyr Creadigol llwyddiannus borthi bras gynllun y prosiect cyn cyflwyno'r ffurflen.

### **05 Tachwedd 2018 – 30 Ebrill 2019**

Rhaid i'r sesiynau yn yr ysgol a phrif weithgaredd y prosiect ddigwydd rhwng y dyddiadau hyn. Nid yw dyddiadau'r gweithgaredd, yr amser paratoi a chynllunio yn agored i'w trafod a chytunir arnynt â'r ymgeisydd neu'r ymgeiswyr llwyddiannus, gan ystyried diwrnod yr ysgol, caffaeledd athrawon ac amser dysgu. Fodd bynnag, bydd disgwyl i'r Ymarferwr Creadigol wneud rhai sesiynau yn yr ysgol gyda'r disgyblion a'r athrawon i baratoi ar gyfer y daith ysgol i Amgueddfa Sain Ffagan ym mis Ionawr 2019, y bydd disgwyl i'r Ymarferwr Creadigol ddod arni hefyd.

### **24 Mai 2019**

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen werthuso a'r deunydd ategol i Gyngor Celfyddydau Cymru. Bydd disgwyl i'r Ymarferwr Creadigol gyfrannu at lenwi'r ffurflen werthuso.

## **SUT I WNEUD CAIS**

Cyflwynwch yr wybodaeth ganlynol i [commissions@addocreative.com](mailto:commissions@addocreative.com) erbyn Canol Nos **16 Medi 2018**:

- Hyd at ddeg o ddelweddau digidol ac, os mynnwch, ffilm neu fideo deng munud (ar y mwyaf) (D.S. Pan fyddwch yn anfon ffeiliau mawr (dros 4MB), rhowch hyperddolennau i ffeiliau ar lein neu anfon drwy DropBox / WeTransfer);
- CV cyfredol;
- Llythyr cais byr sy'n amlinellu'n fras pam rydych yn ymddiddori yn y cyfle hwn a sut y byddai eich gwybodaeth arbenigol a'r cyneddfau yn eich gwneud yn ymgeisydd addas ar gyfer y prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol yma;
- Dau ganolwr a all dystio i'ch addasrwydd i ymgymryd â'r prosiect.

Detholir yr Ymarferwr neu'r Ymarferwyr Creadigol yn ôl ansawdd eu gwaith blaenorol a'i berthnasedd i'r briff. Cofiwch nad oes arnom eisiau cynigion yn y fan hon gan mai'r tebyg yw y bydd yr ymgeisydd a benodir yn datblygu'r prosiect ar y cyd â'r ysgol, yr athrawon a'r disgyblion.

## Y BROSES DDETHOL

Rhoddir hyd at bum ymgeisydd o blith y ceisiadau ddaw i law ar y rhestr fer i'w cyfweld. Bydd y cyfweiliadau'n digwydd ar **27 Medi 2018** yn Ysgol Gynradd Waunceirch, Heol Dŵr y Felin, Castell Nedd, SA10 7RW. **Rhaid i'r ymgeiswyr fod ar gael i ddod i gyfweiliad ar y dyddiad hwn.** Anfonir gwahoddiadau i gyfweiliad erbyn 21 September 2018.

## GWYBODAETH ARALL

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y comisiwn hwn, e-bostiwch Sarah Pace, Asiant Creadigol LCS yn [commissions@addocreative.com](mailto:commissions@addocreative.com) <<mailto:commissions@addocreative.com>>

## Rhagor ynghylch Ysgol Gynradd Waunceirch

Mae Ysgol Gynradd Waunceirch yn ysgol brysur a chyfeillgar lle mae digonedd ar fynd. Gweledigaeth yr ysgol i'r athrawon, y dysgwyr a chymuned ehangach yr ysgol yw: "Tyfu a dysgu gyda'n gilydd. Gwneud ein gorau beunydd." Mae gweledigaethau a gwerthoedd yr ysgol wrth graidd popeth wnân nhw, yn sail yr addysgu a'r dysgu, ac yn cynnig amgylchfyd sy'n paratoi'r disgyblion at fod yn ddinasyddion hyderus a llawen. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <http://www.waunceirch.co.uk>.

## Rhagor ynghylch y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol

Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cynnig cyfleoedd i ysgolion chwilio cyrchddulliau creadigol newydd a chyffrous o ran addysgu a dysgu ar draws y cwricwlwm, yn eu cefnogi i fynd i'r afael ag achosion, blaenoriaethau datblygu pwysig ac anghenion dysgwyr. Ei amcan yw datblygu creadigedd, uchelgeisiau a gorchestion pobl ifanc yng Nghymru, yn gyfrwng agor mwy o gyfleoedd iddynt yn y dyfodol. Mae'n cefnogi arloesi a meithrin partneriaethau hirdymor rhwng ysgolion a phobl broffesiynol greadigol. Cyllidir y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. I gael rhagor o wybodaeth ewch i <http://www.arts.wales/what-we-do/creative-learning>

## Rhagor ynghylch Addo

Corff celfyddydau nid er elw yw Addo, sy'n arbenigo mewn curadu celfyddyd yn y maes cyhoeddus. O swyddfeydd ym Mhontypridd a Wrecsam mae Addo yn gweithio gydag ac ar ran artistiaid, ymarferwyr creadigol, grwpiau cymuned, cyrff gwirfoddol, a phartneriaid yn y sectorau preifat a chyhoeddus i gynhyrchu prosiectau drwy hyd a lled Cymru, yn ogystal ag yng ngwledydd eraill Prydain a thramor. Yn Lladin ystyr 'addo' yw 'rhoi, cyrchu, gosod, ysbrydoli, peri, ychwanegu, uno' ac at hynny, wrth reswm, mae iddo'i ystyr yn y Gymraeg a hyn oll yn ddrych o gyrchddull cydweithredol y cwmni o ran cyflenwi prosiectau graenus celfyddyd gyfoes sy'n gwella ecoleg gymdeithasol a diwylliannol ehangach manau. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <http://www.addocreative.com>.

